# y dinesydd

Rhag 1996 / Ion 1997 — PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH — Rhif 224


## RHYS TUDUR

Bu Rhys farw yn 45 oed ar ôl brwydr ryfeddol o ddewr. Tystiolaeth ei dylwyth a'i ffrindiau yw iddo ddangos arwriaeth anhygoel wrth ddygymod â'r gelyn eithaf. Drwy'r misoedd o dostrwydd enbyd ni welwyd ynddo unwaith arlliw o ofn nac o hunandosturi. Ac ni chollodd ei ffydd yn nhrefn y Duw y bu'n weinidog iddo.

O gyfnod ei addysgu mewn ysgol a choleg ym Mangor, trwy gydol ei weinidogaethau gyda'r Annibynwyr yng Ngwaelod-y-garth a'r Bala, ac fel cyfarwyddwr cwmnïau cysylltiadau cyhoeddus bu Rhys yn bregethwr efengyl Iesu Grist.

Am dymor byr o bum mlynedd y cefais i'r fraint o'i adnabod. Gwreiddiodd yr adnabyddiaeth honno mor ddwfn eneidiol fel, wrth goffáu Rhys, mae'n weddus i mi gymhwyso geiriau'r emynydd am y Beibl: 'Dengys hwn y ffordd i farw, / Dengys hwn y ffordd i fyw.'

Roedd ei ffordd o fyw yn un hynod ddyrchafol. Yn ei ymwneud â phobl yn ei waith ac yn gymdeithasol byddai'n ddiffuant ei farn ond yn barod bob amser i wrando'n gydymdeimladol ar safbwyntiau a dadleuon pobl eraill. A thrwy'r cyfan byddai gras ei wên yn diogelu perthynas dda yn y trafod a'r rhannu profiadau.

Os oedd ei ffordd o fyw yn ddyrchafol, roedd ei ffordd o farw yn esiampl syfrdanol, odidog. Ni allaf ond dyfynnu geiriau un o gymeriadau Shakespeare: 'Nothing in his life became him like the leaving it...' Ei siars fawr oedd 'Peidiwch â disgwyl i mi ofyn "pam fi?" yn hytrach na "pam nad fi?" ' Roedd ei ddewrder yn destun edmygedd nid yn unig i'w deulu ac i'w ffrindiau agos ond hefyd i'r meddygon a'r nyrsus a fu'n ceisio lleddfu ei artaith. Fel y dwedodd un nyrs wrtho, 'Bob tro y bydda i'n mynd o'r tŷ 'ma, fe fydda i'n teimlo'n hapus!'

Geiriau Rhys ar daflen y gwasanaeth eneiniedig yn Ebeneser ddydd Mercher, Tachwedd yr ugeinfed oedd, 'Y cyfan a wneuthum, trwy ras, nerth a gallu Duw y cyflawnais hwy. Iddo Ef y byddo'r anrhydedd a'r clod.' Nid oedd am i neb dalu teyrnged iddo. Ond ar ran y rhai a wêl golli ei gwmnïaeth ddifyr a'i gyfeillgarwch cadarn, heriais y gwaharddiad hwnnw. O leiaf, byddai Rhys yn llwyr gyd-weld â diwinyddiaeth y deyrnged hon.

Rhoed popeth, ei bregethu - a'i hiwmor
A'i rym wrth wynebu
Ei Dachwedd a'r diwedd du
I Rhys, trwy rym yr Iesu.

Cydymdeimlwn ag Elin, Siôn, Ffion, Ifan ac Owain ac â gweddill y teulu.

**T. James Jones**

---

## Dathlu hannercanmlwyddiant sefydlu Bryntaf

## AR DAF YR IAITH A DYFODD



*Dyma lun o Safon 4 Ysgol Bryntaf gyda Mr Islwyn Jenkins ym 1967. Ydych chi yn y llun? Ydych chi'n adnabod rhywun yn y llun?*

Gan ein bod yn paratoi i ddathlu hannercanmlwyddiant sefydlu ysgol gynradd Gymraeg gyntaf Caerdydd, rydym yn awyddus i glywed oddi wrth cynifer â phosib o'r cyn-ddisgyblion a fu ym Mryntaf, yn arbennig yn ystod yr ugain mlynedd cyntaf!

Bwriedir trefnu cinio ac arddangosfa yn ogystal â gweithgareddau amrywiol yn ôl y galw a'r ymateb. Cysylltwch â'ch cyfoedion sydd ar wasgar er mwyn i bawb gael cyfle i ymuno yn y pen-blwydd hynod hapus hwn!

Danfonwch luniau neu syniadau at Mrs Siân Thomas, 105 Pantmawr Road, Rhiwbina, Caerdydd CF4 6XE.

# Y Dinesydd

**Rhag/Ion 1996/97, Rhif 224.** **ISSN 1362-7546**
Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd*.
Fe'i cysodir gan PPS, Ystum Taf, Caerdydd, a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

**Anfonwch ddefnydd ar gyfer rhifyn Rhagfyr/Ionawr at un o'r canlynol erbyn 15 Ionawr:**
Mr W. J. Jones, 46 Heol Crystalwood, Caerdydd (Ffôn: 756282, Ffacs: 578106): Newyddion Cyffredinol.
Mr Garwyn Davies, 27 Baron Road, Penarth (Ffôn: 708253): Newyddion y Fro.
Mr B. D. Harries, 6 Lakeside, Caerdydd (Ffôn: 756562): Newyddion Byd Addysg Gynradd.
Mr Thomas Davies, 41 Highfields, Caerdydd (Ffôn/Ffacs: 564540): Newyddion Chwaraeon.
Y Parchedig Gwilym Dafydd, 4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 626811): Newyddion o'r Eglwysi.
Ms Gill Stephen, Coleg Glan Hafren, 35 The Parade, Caerdydd (Ffôn: 250439): Gweithgareddau Dysgwyr.
**Anfonwch unrhyw sylwadau am ddosbarthu at:**
Mr Alun Ceri Jones, Surrexit, 2 Merthyr Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 1DG. Ffôn: 01222 529888.

## HYSBYSEBION

Mae'r *Dinesydd* yn ffordd ddelfrydol o hysbysebu ac mae hysbysebion yn hanfodol i gynnal y papur. Dylai pawb sydd am hysbysebu gysylltu â:

Miss Catrin Rowlands, 42 Carling Court,
Croes Cwrlwys, Caerdydd CF5 4PH
(Ffôn: 01222 598243).

## CYFRANIADAU ARIANNOL

Diolch i Eglwys Minny Street am rodd o £25 at goffrau'r *Dinesydd*.

Mae ein trysorydd, Mr Aled Williams, Rhos-y-grug, 89 Pen-twyn, Radur, Caerdydd (Ffôn: 844483) yn croesawu unrhyw gyfraniad bob amser. Cofiwch fod *Y Dinesydd* yn dibynnu'n drwm ar gyfraniadau'r rhai sy'n ei ddarllen.

Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Chyngor y Celfyddydau i'r cyhoeddiad hwn.

## FFURFLEN CYFRANNU

Amgaeaf rodd o £__________ fel cyfraniad at gynnal *Y Dinesydd*.

Enw: ..........................................................

Cyfeiriad: ..........................................................

.......................................... Côd Post: ........................

Rhif Ffôn: ..........................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Aled Williams, Rhos-y-grug, 89 Pen-twyn, Radur, Caerdydd

## FFURFLEN TANYSGRIFIO

Amgaeaf danysgrifiad blwyddyn o £15 er mwyn derbyn *Y Dinesydd* drwy'r post yn rheolaidd.

Enw: ..........................................................

Cyfeiriad: ..........................................................


.......................................... Côd Post: ........................

Rhif Ffôn: ..........................................................

Dychweler y ffurflen hon i swyddfa Surrexit, 2 Merthyr Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 1DG.

## CROESAIR AP LEWSYN

**Rhif 156** **Rhagfyr 1996 / Ionawr 1997**



**CROESAIR Â BLAS Y NADOLIG ARNO**

Ar ymylon allanol y croesair ceir pedwar ymadrodd 13 llythyren yr un sydd i'w gweld yn Efengyl Luc, pennod 2 (Yr Hen Gyfieithiad). Felly, ni roddir cliwiau pellach i 1 a 25 ar draws a 7 ac 8 i lawr. Cliwiau arferol sydd i weddill y croesair.

**AR DRAWS**

1. Gweler uchod (pum gair).
9. Y cyflog cywir? Am gam neu golled. (7)
10. Rwy'n canlyn yn ffwndrus un a fyn ildio ar ôl colli deg. (7)
11. Oriawr yr hen garolwyr. (5)
12. Geiriau a froliwn a chymwyswn i wneud enw a gofir byth. (9)
13. Gair allan o adnod 10 (gweler uchod).
15. Prifddinas Penllyn. (9)
17. Cynnig drachefn. (6,3)
18. Pigau'r drain. (5)
19. Cawrfil rhyfedd ....... a llawer ohonynt. (9)
22. Yr un sy'n cyrraedd bellaf. (5)
23. 'Un ............ arfog yw'r Cymol'. (1'1,5)
24. Pentre yn Nyffryn Gwy ble cafodd Francis Kilvert brofiad cyfriniol. Aed berw i'w le. (7)
25. Gweler uchod (tri gair).

**I LAWR**

2. Tua diwedd y ganrif. (3,3,3,)
3. Gwreiddyn o ardd ffeirad isel eglwysig. (5)
4. Dyfais Curwen. (5)
5. Ymdrechwyd (yn erbyn), yn amlach na heb. (9)
6. Oenig prancus yn gwingo. (5)
7. Gweler uchod (pedwar gair).
8. Gweler uchod (tri gair).
10. 'Dŷ f'hendaid, llwyd .........' Eifion Wyn. (2,5)
14. Offeryn cerdd addas i glown bach. (9)
15. Gwersylloedd lluoedd Mr. Eliot yn drefnus dros ben. (7)
16. 'Am nad oedd iddynt ...............' (o'r un bennod â'r ymylon). (2,2,1,4)
20. Y mae hen do neu hen fwced yn mynd .......... (1,4)
21. Hen enw ar watwareg neu goegni. (5)
22. Holed yr gyffrous am ystyr einioes dyn. (5)

**Cystadleuaeth Rhif 155**

Daeth tair ymgais ar ddeg i law, a phob un yn hollol gywir. Yr enw a dynnwyd ar siawns oedd eiddo Beti Wyn Thomas, 36 South Western Road, St. Margaret, Twickenham, ac mae'r tocyn llyfrau eisoes ar ei ffordd iddi.

Enwau'r deuddeg arall oedd: Margaret Jones, Rhiwbina; Heledd Hall, Treganna; Buddug Roberts, Yr Eglwys Newydd; Huana Simpson, Y Bont-faen; Marged Davies, Llandaf; E. Haydn Jones, Rhiwbina; Marian Lake, Llanfihangel-ar-Elái; Michael Francis, Casnewydd; Gwenda Hopkins, Llanisien; Nia Williams, Creigiau; Bob Roberts, Rhiwbina; James Wiegold, Rhiwbina.

**Cystadleuaeth Rhif 156**

Enw a chyfeiriad ar ymyl y croesair i'w hanfon at: Ap Lewsyn, 13 Rannock Drive, Cyncoed, erbyn 17 Ionawr os gwelwch yn dda.

**Annwyl Olygydd,**

Buasem yn ddiolchgar petaech yn barod trwy'ch tudalennau i helpu i ddwyn sylw cyn-ddisgyblion Ysgol Dewi Sant, Llanelli at ddigwyddiad pwysig yn 1997.

Ar 1 Mawrth 1997 bydd Ysgol Dewi Sant - yr ysgol gynradd Gymraeg gyntaf o dan awdurdod addysg lleol - yn dathlu ei phen-blwydd yn 50 oed.

Fel rhan o'r dathliadau, bwriedir cyhoeddi llyfr yn cynnwys straeon, atgofion a lluniau o'r hanner-can mlynedd.

Os oes gan unrhyw gyn-ddisgybl atgofion neu luniau o'u cyfnod yn yr ysgol y carent eu rhannu trwy gyfrwng y gyfrol, gofynnwn iddynt gysylltu ar frys â'r golygydd - Elenid Jones, 2 Ffordd Tyn-y-coed, Pen-tyrch, Caerdydd CF4 8NP.

Fe fyddwn hefyd yn trefnu aduniad i gyn-ddisgyblion yr ysgol. Os carech ddod, cysylltwch â mi: John Jenkins, Y Deml Heddwch, Parc Cathays, Caerdydd CF1 3NW

Gyda diolch.

Yr eiddoch yn gywir,

**John Jenkins**

**Annwyl Olygydd,**

Rwy'n casglu lluniau o gwmnïau drama Cymraeg rhwng 1900 ac 1960 i'w cynnwys mewn cyfrol ar batrwm cyfres 'Bro a Bywyd' sydd i'w chyhoeddi gan Wasg Gomer.

Byddwn yn dra diolchgar am gael benthyg lluniau perthnasol a all fod ym meddiant darllenwyr *Y Dinesydd* er mwyn gwneud copïau ohonynt, a bydd gwybodaeth ynglŷn â'r llun (e.e. enw'r cwmni, am ba hyd y bu mewn bod, enw'r ddrama yr oeddid yn ei pherfformio adeg tynnu'r llun, enwau'r actorion, enw'r cyfarwyddwr etc.) yn werthfawr iawn.

Dychwelir pob llun yn ddiogel i'w berchennog ar ôl ei gopïo a mawr obeithiaf y ceir eich cefnogaeth. Bydd cyhoeddi cyfrol o'r fath yn ffordd o ddechrau gwneud cyfiawnder â chyfraniad byddin o gymwynaswyr a wnaeth gymaint i fywiocáu'r diwylliant Cymraeg yn ystod hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif.

Anfoner pob llun at: Hywel Teifi Edwards, 45 Parc Cleviston, Llangennech, Llanelli SA14 9UP.

Gan ddiolch ymlaen llaw am bob cymorth.


**Hywel Teifi**

**Cafodd** bywyd Cymraeg y Barri ergyd ym marwolaeth Mr Emlyn Williams. Ef oedd awdur y dôn 'Daniel' yn yr *Atodiad* i lyfr emynau'r Methodistiaid. Estynnwn ein cydymdeimlad i'w fab, Gareth, sy'n ddarlithydd Hanes yn y Brifysgol yn Aberystwyth; ei frawd, Mr Meirion Thomas, Troed-y-rhiw, a gweddill y teulu.

**Estynnwn ein cydymdeimlad** i deulu Mrs Meryl Parry-Jones, Pentyrch, fu farw'n sydyn ym mis Hydref yn 43 mlwydd oed.

**Llongyfarchiadau** i Hannah Thomas ar gael ei phenodi'n bennaeth adran gysylltiadau cyhoeddus y cwmni teledu annibynnol o Gaerdydd, Cambrensis. Mae Hannah yn ymuno â Cambrensis wedi dwy flynedd yn gweithio i gwmni cysylltiadau cyhoeddus Golley Slater. Cyn hynny bu'n cwblhau cwrs ôl-raddedig mewn cysylltiadau cyhoeddus yng Nghanolfan Newyddiaduraeth Prifysgol Cymru Caerdydd, ar ôl graddio yn 1992 mewn Cymraeg a Saesneg o Brifysgol Cymru Abertawe. Aeth Hannah, sy'n dod yn wreiddiol o Gaerdydd, i Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf.

**DATRYSIAD CROESAIR HYDREF**



## Calendr y Dinesydd

**Mawrth, 31 Rhagfyr**
Cymdeithas Nos Fawrth Eglwys Tabernacl, Yr Ais: Swper y Llanciau a Gwylnos.

**Mawrth, 7 Ionawr**
Cymdeithas Nos Fawrth Eglwys Tabernacl, Yr Ais: 'Cymeriade'. Sgwrs gan Eirlys a Gwyn Pritchard Jones, am 7.30 p.m. Croeso i bawb.

**Iau, 9 Ionawr**
Clwb Gwawr Caerdydd: Sglefrio yn y Ganolfan Sglefrio Genedlaethol. Manylion pellach: 01222-216503.

**Gwener, 10 Ionawr**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: Sgwrs gan y Parch. Gareth H. Davies, yn festri Capel Bethel, Heol Pen-llin, am 7.30 p.m.

**Gwener, 10 Ionawr**
Cymry'r Wenallt: Y Cinio Blynyddol, yn y Clwb Rygbi, Heol Felindre, Yr Eglwys Newydd, am 8.00 p.m. Manylion pellach: 01222-482922.

**Mawrth, 14 Ionawr**
Cymdeithas Nos Fawrth Eglwys Tabernacl, Yr Ais: 'Pobl a'u Pethau'. Sgwrs gan Glenys Morris, am 7.30 p.m. Croeso i bawb.

**Gwener, 17 Ionawr**
Cylch Llyfryddol Caerdydd: 'Cofiant John Jones Talsarn'. Darlith gan yr Athro R. Tudur Jones, Bangor yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau, Rhodfa Colum, Prifysgol Cymru Caerdydd, am 7.00 p.m.

**Llun, 20 Ionawr**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Aled Gwyn a'i Hoff Gerddi, yn Neuadd Eglwys Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.30 p.m.

**Llun, 20 Ionawr**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd: 'Delweddau Meddygol ar Drothwy'r Mileniwm.' Darlith gan yr Athro Geraint Roberts (Ysbyty'r Brifysgol), yn Ystafell G71, Prif Adeilad Prifysgol Cymru Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30 p.m.

**Mawrth, 21 Ionawr**
Cymdeithas Nos Fawrth Eglwys Tabernacl, Yr Ais: 'Sŵn a Swyn Geiriau'. Sgwrs gan Gwilym Morris, am 7.30 p.m. Croeso i bawb.

**Mawrth, 28 Ionawr**
Cymdeithas Nos Fawrth Eglwys Tabernacl, Yr Ais: 'Noson y Cariadon'. Sgwrs gan Lowri Gruffydd, am 7.30 p.m. Croeso i bawb.

**Llun, 3 Chwefror**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Gyrfa Chwist, yn Neuadd Eglwys Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.30 p.m.

**Mawrth, 4 Chwefror**
Cymdeithas Nos Fawrth Eglwys Tabernacl, Yr Ais: 'Iechyd i'r Galon'. Sgwrs gan Iwan Thomas, am 7.30 p.m. Croeso i bawb.

**Gwener, 7 Chwefror**
Cymrodorion Caerdydd: 'A phobl Cymru a gymerth ato: Pwy?' Darlith gan Islwyn Jones, yn festri Capel y Crwys, Richmond Rd, am 7.15 p.m.

**Mawrth, 11 Chwefror**
Cymdeithas Nos Fawrth Eglwys Tabernacl, Yr Ais: Noson y Diaconiaid dan ofal Wyn Morris, am 7.30 p.m. Croeso i bawb.

**Iau, 13 Chwefror**
Clwb Gwawr Caerdydd: Aromatherapi gyda Rhian Morgan a Llio Silyn, yng Nghlwb Golff Radur am 8.30 p.m.

**Gwener, 14 Chwefror**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: 'Hanes Ysgol Howells' gan Mrs Mefus Evans, yn festri Capel Bethel, Heol Pen-llin, am 7.30 p.m.

**Gwener, 14 Chwefror**
Cymry'r Wenallt: Cwis yn y Clwb Rygbi, Heol Felindre, Yr Eglwys Newydd, am 8.00 p.m. Manylion pellach: 01222-482922.

**Llun, 17 Chwefror**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd: 'Pam Trin Dŵr?' Darlith gan Ken Williams (Dŵr Cymru), yn Ystafell G71, Prif Adeilad Prifysgol Cymru Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30 p.m.

**Gwener, 21 Chwefror**
Cylch Llyfryddol Caerdydd: 'Pa mor Gymraeg roedd Caerdydd rhwng 1750 a 1850'. Darlith gan Owen John Thomas yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau, Rhodfa Colum, Prifysgol Cymru Caerdydd, 7pm

**Gwener, 21 Chwefror**
Cymrodorion Caerdydd: Cinio Gŵyl Ddewi yn Neuadd Aberdâr.

**Iau-Sadwrn, 20-22 Chwefror**
Cwmni Dalier Sylw yn cyflwyno 'Bonansa!' gan Meic Povey yng Nghanolfan Chapter, Heol y Farchnad, Treganna. Manylion pellach: 01222-236650.

**Sadwrn, 22 Chwefror**
Ysgol Undydd ar y testun 'Rhyfel y Beirdd' dan nawdd Adran Addysg Barhaol Prifysgol Cymru Caerdydd, yn 38 Park Place, Caerdydd, rhwng 10.30 a.m. a 4.00 p.m. Darlithydd: Y Prifardd Alan Llwyd. Tâl: £12. Cyswllt: Dr Gwen Awbery 01222-874832.

*Os ydych am gynnwys digwyddiadau yn y Calendr, anfonwch y manylion at: E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 2AJ.*

**Fel y nodwyd** yn y rhifyn diweddaraf, bu Luned Gonzales, prifathrawes Coleg Camwy, Y Gaiman, Patagonia yn ymweld â Chaerdydd ac yn aros yng nghartref Shân Emlyn, Ysgrifennydd Cymdeithas Cymry Ariannin. Yn ystod ei hymweliad bu'n cynnal trafodaethau â'r Swyddfa Gymreig a'r Cyngor Prydeinig ynglŷn â chynllun i anfon tri athro Cymraeg i'r Wladfa gan ddechrau ar y gwaith ym mis Mawrth 1997. Cafodd gyfle hefyd yn ystod ei harhosiad i ymweld â'i chyfnither, sef Mrs Luned Bere yn y Barri.

**Cafwyd** perfformiadau grymus gan Theatr Gorllewin Morgannwg yn Theatr y YMCA ar y 25/26 o Hydref o'u sioe 'I'r Byw'.

**Cynhaliwyd** noson lwyddiannus iawn dan nawdd Plaid Cymru Gogledd Caerdydd yn Neuadd Goffa Rhiwbina ar 9 Tachwedd pan ymddangosodd yr Hennessys.

**Mallt Anderson a Myfanwy Jarman** fu yn diddanu aelodau Cymdeithas Cymry Rhiwbina nos Lun, 3 Tachwedd pan gafwyd llu o ddyfyniadau o'r Beibl yn sôn am goginio a bwydydd o bob math. Profwyd cacen ar ddiwedd y noson a baratowyd gan gynnwys cynhwysion a grybwyllir yn y Beibl. Noson flasus iawn!

**Estynnwn ein cydymdeimlad** i deulu'r Dr T. G. Owen, Radur, fu farw'n ddiweddar yn 87 oed.

**Cynhaliwyd** Noson Gwin a Mins Peis yng nghartre Malcolm a Calan McGreevy, Llanbedr-y-fro, nos Wener 15 Tachwedd i godi arian at Ysgol Gymraeg Llundain. Bu plant y McGreevy's yn mynychu'r Ysgol pan oedd y teulu yn byw yn Llundain. Un arall o Gaerdydd sy'n dal ei chysylltiad â'r ysgol yw Elinor Talfan Davies. Hon yw'r unig Ysgol Gymraeg yn y byd y tu allan i Gymru! Os hoffai unrhyw un o ddarllenwyr *Y Dinesydd* gyfrannu at y gronfa, yna anfonwch at Calan McGreevy, 'Cilmeri', Dyffryn Crescent, Llanbedr-y-fro, CF5 6NF.

**Dymuna** Elin, Siôn, Ffion, Ifan ac Owain ddiolch am bob cynhaliaeth a dderbyniwyd yn ystod cyfnod gwaeledd Rhys. Bu cefnogaeth a chariad ffrindiau yn fur o'n cwmpas fel teulu. Diolch hefyd am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atom yn ystod y brofedigaeth o golli Rhys.

**I GYFARCH TRYSTAN HEDD**

Llongyfarchiadau cynnes iawn i Lowri a Hefin Gruffydd, Pontypridd, ar enedigaeth eu mab, Trystan Hedd, ŵyr i Alwen a'r Dr Alan Kemp, Llys-faen, Caerdydd, a Menna ac Ellis Griffiths, Dolgellau. Ganed Trystan am 3.40 fore Llun, 25 Tachwedd, ac fel hyn y cyfarchwyd ef gan Robin Gwyndaf:

**Daethost i'r byd yn y bore bach**
**Ar dywyll awr,**
**Yn rhodd o hedd i dad a mam,**
**Fel toriad gwawr.**

**Yr oedd calonnau** ledled Cymru'n curo ynghynt wrth i sioe fachu S4C, *Bacha Hi O'Ma* ddychwelyd i'r sgrin â merch leol ymhlith y cystadleuwyr a oedd yn ymddangos yn y rhaglen gyntaf, sef Siriol Griffiths o Riwbina. Mae Siriol, sy'n 19 oed ac yn fyfyrwraig yng Nghaerdydd, yn honni mai ei swydd ddelfrydol fyddai bod yn ysgrifenyddes i Ryan Giggs.

**Cynhelir** Gwasanaeth y Cymun yn y Gymraeg ar y trydydd bore Sadwrn ym mhob mis am 9 a.m. yn Eglwys Fair, yr Eglwys Anglicanaidd sydd yng nghanol pentref yr Eglwys Newydd. Croeso cynnes i bawb.

## Y CYLCH LLYFRYDDOL

Ym mis Tachwedd cafodd aelodau'r Cylch glywed am rai o brofiadau Vincent Phillips (gynt o Amgueddfa Werin Cymru) pan fu wrthi, wedi gorffen ei radd yn y Gymraeg yng 'Ngholeg Prifysgol Deheudir Cymru a Mynwy', yn astudio tafodiaith Dyffryn Elái. Cyfeiriodd at ddylanwad y sgolor mawr hwnnw, yr Athro Griffith John Williams, arno - sut y byddai'n ysgogi ei fyfyrwyr a chreu ymwybyddiaeth ym mhob un ohonynt o gyfoeth geirfa gwahanol ardaloedd yng Nghymru.

Yr Athro hwnnw a awgrymodd i Vincent ei fod yn mynd ati i ddilyn cwrs Afon Elái ac ymchwilio ym maes iaith lafar trigolion pentrefi megis Sain Siorys, Castellau, Llanbedr-y-fro, Pendeulwyn ac i fyny i gyfeiriad y Rhondda - ond heb fentro i'r Cwm hwnnw.

Soniodd Vincent am ei gyfnod ym Mhrifysgol Llundain yn astudio Seineg - hollol hanfodol cyn y gallai ddechrau recordio tafodiaith - a'r oriau a dreuliodd yn y Llyfrgell Genedlaethol ac mewn mannau eraill yn darllen dogfennau a phapurau a awgrymwyd iddo gan rai fel R.J. Thomas, Aneirin Lewis ac eraill y cydnabu ei ddyled mawr iddynt.

Gweithiai mewn cyfnod pan oedd adnoddau ariannol a thechnegol yn brin, a chydymdeimlai ei gynulleidfa ag ef wrth glywed am ei drafferthion yn cario peiriant recordio trwm ar fysys ac ar ei ysgwydd i ymweld â rhai o'r ychydig yn yr ardaloedd hynny oedd heb golli eu Cymraeg yn gyfan gwbl. Ac weithiau, ar ôl cyrraedd, cael nad oedd trydan yn y ty!

Noson hynod o ddiddorol, a Vincent yn haeddu pob gair o ddiolch a chanmoliaeth a gafodd gan Lywydd y Cylch, y Dr Dewi Eurig Davies.

**D. Gwyn Jones**

### Cylch Cinio Cymraeg y Barri

Yng nghyfarfod mis Hydref y gwr gwadd oedd Geraint Evans, yn awr o'r BBC ond yn wreiddiol o Daliesin, Ceredigion. Soniodd am y bobl a fu'n ddylanwad ar ei fywyd mewn ysgol a choleg ac wrth iddo ddilyn ei yrfa gyda'r *Cambrian News*, Aberystwyth, Bwrdd Croeso Cymru, Cyngor Chwaraeon Cymru a'r BBC.

### Cymdeithas Gymraeg Penarth

Nodwyd eisoes yn *Y Dinesydd* bod y Gymdeithas yn dathlu ei phen-blwydd yn 30 oed eleni. Yn ystod y cyfarfod dathlu cafwyd ychydig o hanes y Gymdeithas gan y Parchedig Maxwell Evans, gwr a fu'n gysylltiedig â hi o'r cychwyn cyntaf. Gwnaeth hynny yn ei ffordd Faxaidd unigryw. Daeth dros ddeugain o'r aelodau ynghyd i rannu'r atgofion.

## Gwent yn gofyn i Gaerdydd am diwtoriaid

Mae Shirley Williams, Swyddog Datblygu Cymraeg yn y Gweithle, Coleg Trydyddol Gwent, Y Fenni, yn chwilio am diwtoriaid (sy'n cael eu talu) i ddysgu'r Gymraeg yn ail iaith yn y De-ddwyrain. Os oes gan unrhyw ddinesydd ddiddordeb, ffonied Ms Williams ar 01873 855221.

## Marw Mrs Eileen Symonds

Ym marwolaeth Mrs Eileen Symonds, Cwm Pennant, Llandochau, collwyd un arall o Gymry Cymraeg y Fro. Gwraig o Gaernarfon oedd Mrs Symonds a'i phriod, Idwal, o ardal Llanddeiniolen. Cadwyd cysylltiad gyda Gwynedd yn yr enw ar eu ffermdy a'u cartref a saif ar fryndir rhwng Llandochau a Dinas Powys. Bu Mrs Symonds yn dioddef ers peth amser cyn huno yn Ysbyty Llandochau ganol mis Tachwedd. Estynnwn bob cydymdeimlad â'r teulu yn ei golled a'i alar.

## Cofio A H Williams M.A.



Y diweddar A H Williams

Ddydd Sul, 13 Hydref, bu farw A. H. Williams, Rhiwbina yn 89 mlwydd oed. Roedd yn awdur cyfrolau ar hanes Cymru, *An Introduction to the History of Wales* a *Cymru Oes Victoria* yn eu plith. Fe gâi ei gydnabod yn arbenigwr ar hanes yr Eglwys Fethodistaidd. Ysgrifennodd sawl llyfr ar deithiau John Wesley yng Nghymru ac ar ddatblygiad yr enwad yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Bu'n olygydd *Bathafarn* (cylchgrawn Hanes yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru) am flynyddoedd ac yna gwnaed ef yn Llywydd Anrhydeddus y Gymdeithas.

Fe'i ganwyd yn Nhan-y-fron ger Wrecsam. Ar ôl graddio ym Mangor bu'n athro yn Aberdaugleddau a Chwm Gwendraeth lle cyfarfu â'i ddiweddar briod, Ann. Bu'n brifathro Ysgol Sir Rhuthun am gyfnod cyn cael ei benodi'n Arolygwr Ysgolion yng Nghaerdydd yn 1946, swydd y bu ynddi nes iddo ymddeol yn 1967.

Bu'n aelod ym Methel, eglwys y Wesleaid yng Nghaerdydd am hanner can mlynedd. Er iddo anghytuno'n aml â'r drefn yn yr enwad, bydd yr aelodau'n cofio'n hir am ei gwmnïaeth ddifyr, yn y capel ac ar ei aelwyd yn y Garth, Ffordd y Wenallt, a'r sgyrsiau'n troi'n aml at wylio criced. Byddwn yn cofio'n arbennig am y dyddiau da pan oedd A.H. yn ein tywys ar y tripiau blynyddol - i Drefeca; i ardal Llanfair-ym-Muallt i ymweld â chartrefi dwy wraig amlwg yn hanes Methodistiaeth, sef gwragedd Howel Harris a Charles Wesley; ac i Horton ac Oxwich ym Mro Gŵyr i ddilyn ôl traed John Wesley. Roedd pob cyfraniad ganddo'n byrlymu o wybodaeth a hiwmor ac fel y dywedodd y Parchedig Huw Ethall yn y gwasanaeth coffa, ni phallodd ei hiwmor, hyd yn oed yn ei ddyddiau olaf.

**Gwyndaf Owen**

## Amgueddfa ac Arwyl

Rai wythnosau'n ôl fe drodd garej ar y Mynydd Bychan yn amgueddfa Sadwrn. Syniad Gareth Williams, Cadeirydd Gwarchodaeth Cymdogion Heolydd Sant Cenydd a Crystalwood oedd y cyfan. Fel y gallai'r cymdogion wybod mwy am eu hardal casglodd ynghyd nifer o hen luniau, mapiau a thameidiau o hanes am yr ardal fel ag y bu drwy'r canrifoedd. Ysgogodd hyn rai o'r bobl i ddod â'u lluniau eu hunain i'r arddangosfa lwyddiannus a chafwyd sawl munud o gloncan difyr am y dyddiau gynt. Bu'r cyfan yn llwyddiant mawr a daeth tua dau gant o bobl i ymweld â'r gorffennol yn ystod y dydd.

Un person na ddaeth i weld y cyfan ac i ychwanegu at yr wybodaeth oedd Mrs Myfanwy Jeffries, preswylydd hynaf Heol Crystalwood. Bu farw rai dyddiau wedi hynny a hithau'n 90 oed. Symudodd Mrs Jeffries i Heol Crystalwood yn 1946 ac roedd wrth ei bodd yn adrodd wrth ei chymdogion fel yr arferai hi a'i gŵr gydgerdded ar nosau Sul o'i chartref i lawr y gweundir agored (gweddill Heolydd Crystalwood a Sant Cenydd a Heol Maes-y-coed erbyn hyny) at Heol Caerffili neu edrych ar ffermwyr yn aredig y tir â cheffylau lle mae tafarn y Three Arches erbyn hyn. Pan oedd yn athrawes yn Ysgol Ystradmynach, roedd yn canu gydag Opera Cenedlaethol Cymru a gwyddai lawer am ei ddyddiau cynnar a hithau'n un o'r sopranos. Doedd ei Chymraeg ddim yn rhugl ond roedd yn cael copi o'r *Dinesydd* bob mis ac yn taro at un o'i chymdogion pan fyddai blas Pontlotyn, ei bro enedigol, ar ambell air. Heddwch i'w llwch.




## Bethel, Rhiwbina

I'r anghenus yn Rwmania yr aeth y rhoddion a dderbyniwyd yn ystod Gŵyl Ddiolchgarwch Bethel Rhiwbina eleni. Trefnwyd y gwasanaeth gan Mrs Tamsin Llwyd Graves.

Bu wyth o aelodau clwb ieuenctid Bethel yn cymryd rhan yn y gwasanaeth arbennig ar Sul y Cofio. A'r berthynas rhwng yr eglwys a'r ifanc oedd testun anerchiad y Parchedig Beti-Wyn Davies, Y Barri ym Methel, 14 Tachwedd - cyfarfod a drefnwyd gan Gyngor Eglwysi Cymraeg, Caerdydd.

## Miss Gwyneth Vaughan Jones

Ddiwedd Medi, yng nghapel Holy Trinity, Y Barri, cynhaliwyd cyfarfod coffa Miss Gwyneth Vaughan Jones a fu farw'n ddiweddar yn gant oed. Roedd y cyfarfod yng ngofal y Parchedig D. Haydn Thomas a chymerwyd rhan gan Syr John Habakkuk, cyn-ddisgybl yn Ysgol Sirol y Bechgyn, Y Barri; Mrs Pamela Roberts, cyn-brifathrawes Ysgol Bryn Hafren, Y Barri; y Dr Siriol M. Coley a'r Dr John Lewis, nith a nai Miss Vaughan Jones; Mrs Caryl Howe, prif ddisgybl Ysgol Sirol y Merched yn 1948; a Mrs Mollie Edbrooke, Is-lywydd Cymdeithas Cyn-fyfyrwyr Aberystwyth, 1995-96.

Wedi graddio yng Ngholeg Aberystwyth, bu Miss Vaughan Jones yn athrawes Ffrangeg ym Miwmares, Abertawe a'r Barri cyn cael ei phenodi'n brifathrawes Ysgol Ramadeg y Merched, Y Barri yn 1939. Bu yno hyd ei hymddeoliad yn 1959.

Merch ydoedd i'r Major a Mrs Edgar Jones. Ei thad oedd yr ieuengaf o brifathrawon Cymru pan benodwyd ef yn brifathro ar Ysgol Sirol y Bechgyn, Y Barri. Bu ei mam, Gwen, yn athrawes i blant John Hughes yn Hughesovska, Rwsia, a chafodd ei brawd, Gareth, gohebydd a newyddiadurwr disglair, ei ladd gan wylliaid China yn y tridegau.

Difyr oedd gwrando ar y wraig swil a bonheddig hon yn sôn am yr enwogion a gâi groeso ar ei haelwyd pan oedd ei rhieni'n fyw, pobl fel Syr Edward Anwyl (a roddodd ddol yn anrheg iddi) ac ysgolheigion, beirdd, llenorion a gwleidyddion eraill rif y gwlith. Hoffai sôn hefyd iddi fod yn Versailles adeg arwyddo'r cytundeb heddwch a gwelodd Clemencau, Lloyd George, yr Arlywydd Wilson, a Billy Hughes, prifweinidog Cymraeg-ei-iaith Awstralia, ac eraill, yno.

Tan ryw bum blynedd yn ôl roedd yn byw ar ei phen ei hun yn y Barri ac yn teithio Prydain o un pen i'r llall i gyfarfodydd Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion, Cymdeithas y Cambrian ac aduniadau cyn-fyfyrwyr Coleg Aberystwyth a chyfarfodydd eraill. Bu'n ffyddlon hefyd i gyfarfodydd Cymrodorion y Barri, cymdeithas a sefydlwyd yn ei chartref ar Ddydd Gŵyl Dewi 1906 ac roedd hi yno'n blentyn deng mlwydd oed. Roedd bwlch enfawr ar ei hôl pan aeth, yn 95 oed, i fyw at ei chwaer yn Lloegr a thristwch mawr yn y dref pan ddaeth y newyddion am ei marw. Claddwyd ei llwch ym medd y teulu ym Mynwent Merthyr Dyfan, Y Barri.

# NEWYDDION YR URDD



Heather Jones, Goronwy Wyn Rowlands a phlant Ysgol Coed-y-gof.

## Bore Lansio 75 mlynedd yr Urdd

Ddydd Iau, Tachwedd 21ain, cyflwynwyd bathodyn arbennig sy'n dathlu 75 mlwyddiant Urdd Gobaith Cymru i Goronwy Wyn Rowlands, aelod cyntaf yr Urdd a ymaelododd yn 1922. Mae bron i bedair miliwn o gardiau aelodaeth yr Urdd wedi'u dosbarthu dros y 75 mlynedd diwethaf a thros filiwn o blant a phobl ifanc wedi bod yn aelodau o Urdd Gobaith Cymru dros y blynyddoedd. Un o brif ddigwyddiadau cenedlaethol i ddathlu'r 75 mlynedd cyntaf fydd y Jambori Cenedlaethol a gynhelir ym Mae Caerdydd ar 27 Mehefin 1997 pryd y disgwylir tua 20,000 o blant yn bresennol. Bu plant o Ysgol Coed-y-gof, Caerdydd yn canu un o'r caneuon a genir yn y Jambori sef 'Gwyliau yn y Caribî' i gyfeiliant gitâr Heather Jones yn ystod y seremoni.

## Chwaraeon Cynradd yr Urdd, De Morgannwg

Yn ystod mis Tachwedd trefnwyd Cystadlaethau Chwaraeon Cynradd yr Urdd, De Morgannwg.



Enillwyd y pêl-droed 5 bob ochr gan Ysgol Marlborough, y nofio gan Ysgol Sant Joseff a'r pêl-rwyd gan Ysgol Rhydypennau. Hoffai'r Urdd longyfarch Ysgol Bro Eirwg ar gyrraedd rownd derfynol pêl-droed 5 bob ochr ac Ysgol Pen-y-garth a Phen-cae ar ennill amryw o'r cystadlaethau nofio. Hoffai'r Urdd hefyd ddiolch i'r ysgolion canlynol am eu cefnogaeth parod i gystadlaethau chwaraeon yr Urdd: Coed-y-gof, Bro Eirwg, Y Wern, Melin Gruffydd, Pen-y-garth, Sant Baruc, Pen-cae, Iolo Morganwg, Allensbank, Llanisien Fach, Eglwys Wen, Eglwys Newydd, Rhydypennau, Sant Joseff, Marlborough, Sant Ffransis a Coryton.






Rhai o nofwyr Ysgol Pen-cae

# NEWYDD

## Clwb Dawns yr Urdd



Yn dechrau nos Fercher, 8 Ionawr 1997 yn Nghanolfan yr Urdd, Heol Conwy, Canton, Caerdydd rhwng 5.00 pm - 6.00 pm. Croeso i ferched a bechgyn blynyddoedd 4, 5 a 6 ysgolion cynradd Cymraeg De Morgannwg. Cyfle i ddysgu amrywiaeth o wahanol steiliau o ddawns dan arweiniad Jên Angharad - dawnswraig proffesiynol. Os hoffech fwy o wybodaeth cysylltwch â Siân Jobbins. Ffôn: 236201.

Nadolig Llawen



# YSGOL GLANTAF

## 'CWLWM'

Yn dilyn llwyddiant arbennig y sioe gerdd 'Pum diwrnod o ryddid' yn 1995, tasg anodd iawn a wynebai'r plant a'r athrawon wrth iddynt geisio cyrraedd yr un safon eleni gyda'r sioe gerdd 'Cwlwm' a berfformiwyd yn Ysgol Glantaf ar Dachwedd 12, 13, 14. Ond yn ddiamau llwyddo a wnaethant.

Ysgrifennwyd y gwaith gan Emyr Edwards a'r gerddoriaeth gan Eirlys Gravelle, yn wreiddiol ar gyfer Eisteddfod yr Urdd yn Nhonyrefail 1991.

Y 'Welsh Not' yw'r 'cwlwm', a gwelwn sut y defnyddiwyd y darn ofnadwy yma o bren o gwmpas gyddfau plant yn y 'National




School' er mwyn ceisio sicrhau na fyddent yn defnyddio'r Gymraeg yn yr ysgol. Ysgolfeistr di-drugaredd a atgoffai rhywun o Robin y Sowldiwr yn *Rhys Lewis* oedd Malachi Price. Chwaraewyd y brif ran yma gan Dafydd James. Iwan Davies a chwaraeodd ran Parri Pritchard, bachgen newydd a dderbyniai lid cyson Malachi. Olivia Simove oedd Jessica James, y ferch a ddioddefai fwyaf o dan lach yr ysgolfeistr. Prepiwr y dosbarth a ffefryn yr athro oedd Megan y Wenci. Chwaraewyd y rhan yma gan Kathryn Davies. Cafwyd perfformiad disglair gan bob un o'r rhain. Cafwyd perfformiad gwych gan weddill y prif actorion hefyd, Prys Deiniol, Lucy Evans, Rhys Beynon, Catrin Rogers, Aled James, Dafydd Rhys James, Nicholas Jones, Catrin Doyle, Owain Wilkins. Chwaraewyd rhannau plant yr ysgol gan ryw ddeugain o ddisgyblion a rhaid eu canmol am eu canu da, eu symudiadau celfydd a'u cymeriadau trwy gydol y perfformiad. Mr Alun Guy ynghyd â deuddeg disgybl oedd aelodau'r band a ddarparai'r gerddoriaeth ar gyfer y sioe.

Miss Delyth Medi Jones, Mrs Elspeth Hughes, a Mr Alun Guy oedd cynhyrchwyr y sioe gyda Mrs Neris Morris a Mrs Carys Burston yn gyfrifol am y sgript. Cawsant gymorth parod nifer o athrawon eraill hefyd gydag amrywiol agweddau o'r cynhyrchiad.

'Mae 'na fwy i addysg na hyn' oedd geiriau un gân wefreiddiol - geiriau hynod o berthnasol wrth sylweddoli twf aruthrol addysg Gymraeg er gwaethaf ymdrechion cefnogwyr y 'Welsh Not'. Roedd 'Cwlwm' yn brawf o'r addysg gyflawn, eang ac ymestynnol a gynigir i'n plant yn ein hysgolion Cymraeg.

# O WATERHALL I WHITEHALL



BBC Cymru, S4C, cynrychiolwyr o 'Christmas Films', Rwsia a phlant o ddwy ysgol yng Nghaerdydd yn dod ynghyd ar 11 Tachwedd yn y 'Banqueting House', Palas Whitehall, Llundain. Beth oedd yr achlysur? Dathliad Animeiddiedig yn dathlu'r animeiddio o waith Shakespeare, yr operâu a'r Beibl a welwyd yn ddiweddar yn y rhaglenni *Testament*. Cafodd rhai o blant Ysgol Fitzalan y cyfle i ymateb i'r rhaglenni Saesneg, tra bu grŵp o blant Ysgol Isaf Glantaf yn gwylio'r rhaglenni Cymraeg gan roi eu sylwadau arnynt. Yn sgîl hyn gwahoddwyd y plant i fod yn rhan o'r Dathliad.

Yn anffodus ar y noson cafwyd toriad ar y trydan, ond er gwaethaf hyn cafwyd araith ysbrydoledig gan Chris Grace, Cyfarwyddwr Animeiddio S4C, wrth iddo adrodd hanes animeiddio yng Nghymru o *Superted* ymlaen. Trodd ei weledigaeth, ei benderfyniad, a'i frwdfrydedd y noson yn wefr.

Dyma rai sylwadau'r plant ar y noson:

'Wedi taith hir cyrhaeddom Llundain. Cawsom siom pan glywsom am doriad trydan yn y Banqueting House. Yn lle gweld animeiddio bu'n rhaid gwrando ar ddynion pwysig yn siarad mewn tywyllwch.'

'Pan aethom ar y bws oedd pawb yn nerfus a doedd dim llawer o siarad rhyngom ni â'r plant o Fitzalan. Ond yn Whitehall dechreuon siarad ac ar y ffordd adref roedd pawb yn gyfeillgar â'i gilydd ac wedi gwneud ffrindiau.'

'Roedd llawer o arddangosfeydd yno o'r cymeriadau a rhai setiau. Roedd yn ddiddorol iawn.'

'Roedd yn rhaid mynd i'r tŷ bach gyda channwyll!'

Dyma blant Glantaf a aeth i Lundain:
Yn y cefn: Erin Richards, Heledd Espley, Catrin Williams, Mathew Hallam, Mr. Huw Thomas (Y Prifathro)
Yn y canol: Elin Burns, Siwan Dafydd, Manon Jones, Gwenllian Glyn
Ar y blaen: Huw Triggs, Aled Bartholomew, Rhodri Evans, Tristan Deiniol



# EIN HYSGOLION CYNRADD CYMRAEG

dan ofal B.D. Harries

## Ysgol Gymraeg Coed-y-gof

*Lluniau: Robin Griffith*

Dyfarnwyd i Ysgol Gymraeg Coed-y-gof gan Bwyllgor Deall Anabledd y wobr arbennig a roir i ysgol am hyrwyddo dealltwriaeth well a mwy positif o bobl â phroblemau addysgol. Ysgol yw hon lle am y 14 blynedd diwethaf mae cyfannu cyffrous iawn wedi bod yn digwydd. Mae athrawes yr Uned Arbennig yno yn defnyddio ei sgiliau proffesiynol i sicrhau dysgu da o'r '3 R' ynghyd â defnyddio technoleg fodern, a'r cyfrifiadur, i'w llawn botensial. Mae ganddi gysylltiad gwych â'r rhieni, yn ysgrifennu dyddiadur dyddiol ar gyfer pob plentyn fel y gall y rhieni gael darlun clir o'r hyn sydd wedi bod yn digwydd yn yr ysgol bob diwrnod. Mae'r rhieni yn edrych ymlaen at gael y darlun byw hwn o fywyd dyddiol eu plant. Y peth cyntaf a wnânt ar ôl agor y bag ysgol yw agor y dyddiadur ac wedyn mae ganddynt ddigon o bethau i siarad â'r plant yn eu cylch.

Canmolwyd yn arbennig y ffaith fod y plant yn y dosbarth hwn yn cael eu cynnwys yn y gwibdeithiau i Gastell Caerdydd, yn y canu carolau adeg y Nadolig, y mabolgampau, gwersi nofio, gwasanaethau a chyngherddau. Trwy drefniant Adran yr Urdd, Capel Salem, Treganna mewn partneriaeth â DART (pwyllgor sy'n cynghori ac yn rhoi adnoddau i anabledd yn ardal yr hen Sir Forgannwg) bu pedwar o'r plant yn cymryd rhan yn holl weithgareddau'r Adran ac yn Eisteddfod Sir a Chenedlaethol yr Urdd. Ar hyd y blynyddoedd bu'r plant yn ennill gwobrau yn Eisteddfodau'r Urdd. Gwnaed sylw arbennig bod gweddill yr ysgol yn teimlo'n warchodol iawn tuag atynt, yn deall eu hwyliau, yn rhoi cymorth gyda'r cadeiriau olwyn, ac yn eu helpu i wisgo ar ôl ymarfer corff, a rhieni plant y brif ffrwd yn mynegi eu pleser wrth iddynt weld eu plant nhw yn datblygu yn barod i ofalu am blant dan anfantais heb ofn yn y byd.



Llun plant ac athrawon Uned Arbennig Ysgol Coed-y-gof: Mrs Tina James, Mrs Brenda Jones, Miss Eleri Daniel, Mr Arwel Peleg Williams (Y Prifathro), Mrs Beryl Williams, Ffion Wyn, Darren Jones, Alex Toby, Stephen Stratford, Siân Fouladi, Lois Hughes, Fflur Owen.

Drwy gydol y blynyddoedd mae dysgu effeithiol iawn wedi bod yn digwydd. Yn ystod y blynyddoedd diweddaraf hyn mae plant wedi cael eu cymryd allan o'r Uned i'r dosbarthiadau prif-ffrwd lle mae athrawon prif-ffrwd wedi datblygu sgiliau gwych yn cynnwys gwaith gwahaniaethol a hyrwyddo cyfannu cymdeithasol. Amlygir effeithiolrwydd hyn yn y ffaith bod y plant yn dwli ar fynd i'r ysgol.

Roedd y beirniaid yn falch iawn i wobrwyo ysgol oedd yn rhoi cyfle i blant ag anghenion arbennig i gael addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Ni allai rhieni Cymraeg eu hiaith a rhieni a ddewisodd addysg Gymraeg i'w plant fynegi digon o ddiolch am yr addysg oleuedig a gafodd eu plant yng Nghoed-y-gof yn yr Uned Arbennig yno. Erbyn hyn maen nhw wedi sicrhau yr egwyddor bod hawl gan blant ag anghenion arbennig sydd â rhieni di-Gymraeg i gael addysg cyfrwng Cymraeg hefyd.




Mae croeso brwd i Glyn Jones o Glwb Pêl-droed Caerdydd pan ddaw i hyfforddi bechgyn Coed -y-gof



Cafodd Geraint Passmore ei ddewis i chwarae i'r tîm pêl-droed dan 11eg oed.

# Y CAMPAU dan ofal Thomas Davies



## Y Bêl Hirgron

### PRYNHAWN LLESMEIRIOL

Yn Brive y bydd Caerdydd yn chwarae'u gornest nesaf yng Nghwpan Ewrop, ac yn Rownd Gynderfynol y gystadleuaeth. Dyddiadau'r ddwy ornest yw Ionawr 4ydd a'r 5ed, ac ni wyddwn ar y pryd pa un o'r ddwy a chwaraeid ar y Sadwrn (Caerlŷr yn erbyn Toulouse oedd y llall). Pa ddiwrnod bynnag y bydd yr un yng Nghanolbarth Ffrainc bydd gan y tîm a gynrychiola'r genedl hon gefnogaeth gref, ac fe haeddant gefnogaeth hefyd. Yr oedd y lle dan ei sang ar 16 Tachwedd gyda phobl ar lan yr afon, hyd yn oed, yn gobeithio gweld y chwarae trwy'r bwlch rhwng eisteddle'r gogledd a'r adeilad yn y gorllewin, lle mae'r cefnogwyr brwd yn gwylio'r teledu â'u cefnau at y maes a'r gwydrau yn eu dwylo. Ni fydd eisiau sôn am y bwlch rhwng safon clybiau Cymru a Lloegr ragor, diolch yn bennaf i Bontypridd a Chaerdydd; ffodus oedd y cyntaf i drechu Caerfaddon yn ôl swyddogion y clwb hwnnw, ond ar ôl colli ganol Tachwedd ar gae Caerdydd ni ellid beio ffawd mwy. Treuliais chwarter awr anniddig ar y prynhawn Sadwrn llaith, tywyll hwnnw, pan oedd Caerfaddon yn ymosod yn ddi-baid, gan redeg yn fygythiol wedi ennill meddiant digonol o bob man ac eithrio'r lein. Ond nid ildiwyd cais, ac erbyn y seibiant Caerdydd oedd ar y blaen o dair gôl gosb i ddwy. Gobaith? Oedd, yn bendant, oherwydd bod taclo olwyr a blaenwyr y Brifddinas mor gadarn, ond bu raid aros dros awr cyn inni weld y cais. Hir y cofiwn hwnnw a ddaeth wedi ailennill meddiant pan daclwyd Hemi Taylor - Robert Howley i Meic Hall, Jonathan Davies ac yna Nigel Walker; nid gwibiwr yn unig oedd yr asgellwr, a churodd dri o amddiffynwyr Caerfaddon trwy ochrgamu a newid ei ongl o redeg a chael amser a lle i ddaearu'r bêl o dan y pyst. Dau funud cyn hynny roedd Caerfaddon wedi mynd ar y blaen pan giciodd Catt, eu maswr - a maswr Lloegr - ei bedwaredd gôl gosb.

Nid dros ei glwb yn unig y sgoriodd Nigel Walker, eithr dros y genedl, a thros y genedl y ciciodd Lee Jarvis, a ddaethai i'r maes yn eilydd i Justin Thomas, ei ddwy gôl gosb ddeng munud yn hwyrach. Clywyd ychydig o 'Gwm Rhondda' cyn ei ymgais gyntaf, a 'Hymns and Arias' pan oedd yn paratoi ar gyfer yr ail o 48 metr. Daethai'r hen wefr yn ei hôl.

Prynhawn i'w gofio'n wir, ac awn barth â Brive yn llawn gobaith yn nechrau'r flwyddyn newydd. Hen dro bod yn rhaid mynd i Ffrainc i chwarae, gan gofio'r gwahaniaeth yn safon chwarae'r Ffrancod gartref ac oddi cartref, ond yr oeddwn i'n hyderus iawn hyd yn oed wedi gwylio Brive ar y teledu'n trechu Llanelli o 35 pwynt i 14 drannoeth buddugoliaeth fawr Caerdydd. Nid oes dwywaith nad yw blaenwyr Brive yn nerthol ac yn fedrus, yn cydchwarae'n rhagorol yn null gorau eu gwlad. Ond mae ysbryd rhagorol yng nghlwb Caerdydd bellach. Ac mae Robert Howley ganddyn nhw hefyd.

A welwn yr un dau glwb yn y Rownd Derfynol eto eleni? Gwelwn.

## Y Bêl Gron




### YR ADAR GLAS I HEDFAN YN UWCH

Ar ôl chwilio'r Deyrnas Unedig dros yr haf am chwaraewyr newydd a oedd ar gael yn rhad ac am ddim, mae tîm yr Adar Glas mewn safle gysurus iawn yn y Drydedd Adran. Mae hi wedi bod yn dipyn gwell tymor hyd yn hyn o'i gymharu â'r llynedd a chafwyd rhai gemau digon cofiadwy fel yn erbyn Darlington a Leyton Orient pan chwaraewyd pêl-droed o safon uchel.

Maent eisoes wedi cael tri rheolwr y tymor hwn a mawr yw'r disgwyl oddi wrth y rheolwr newydd, Russell Osman. Gobeithio y cawn ei weld yn chwarae, oblegid yn ystod ei gyfnod fel chwaraewr i'r ddinas y tymor diwethaf, dangosodd ei ddawn fel chwaraewr canol cae celfydd a oedd yn llwyddo i ddefnyddio'r bêl yn greadigol. Mae'r cefnogwyr wedi cael llond bol o glywed am Gaerdydd fel y clwb mawr uchelgeisiol. Caiff Osman gyfle efallai i brofi hyn er nad oedd ei gêm gyntaf yn erbyn Hendon yng Nghwpan yr FA yn gêm i'w chofio. Mae'n rhaid cael dyrchafiad i'r Ail Adran y tymor hwn, oblegid mewn dinas o faint Caerdydd nid yw'n ormod disgwyl cael tîm yn yr Adran Gyntaf o leiaf. Pob lwc, Mr Osman, a mawr obeithiwn y cawn gêm yn erbyn Manchester City yn y Cwpan er mwyn cael cyfle i groesawu Mr Phil Neal yn ôl i Barc Ninian. Byddai'n siŵr o gael croeso cynnes!

**John Albert Evans**

### CLYBIAU NEWYDD I FERCHED

A ydych yn ferch, yn (weddol!) ifanc, ac yn awyddus i gymdeithasu â merched eraill trwy gyfrwng y Gymraeg? Os felly, dyma syniad newydd fydd yn apelio atoch - 'Clybiau Gwawr', sef clybiau i ferched a mamau ieuanc sydd am fwynhau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Bu lansio swyddogol i'r fenter yng Nghaerdydd ar 20 Tachwedd, pryd y daeth criw o ferched at ei gilydd, oedd yn cynnwys aelodau Clwb Gwawr Cwm Gwendraeth a Chlwb Gwawr Radur, Caerdydd - y ddau glwb sydd eisoes wedi eu sefydlu yn y de. Mae tri chlwb hefyd yn y gogledd - Blaenau Ffestiniog, Llanystumdwy (Clwb Glan Dwyfor), a'r Drenewydd (Clwb Bro Hafren). Menter newydd gan Ferched y Wawr yw y Clybiau Gwawr, ac mae'r mudiad wedi llwyddo i gael nawdd gan Fwrdd yr Iaith i gynnal swydd Swyddog Datblygu newydd i'r de, fydd yn ceisio denu aelodau newydd o bob oedran. Yn y lansio, cafwyd gair o gefnogaeth gan Dafydd Elis Thomas o Fwrdd yr Iaith, a hefyd gan yr actores Beth Robert ('Lisa' o *Bobol y Cwm*). Yr oedd cynrychiolaeth hefyd o Fenter Taf-Elái a Mudiad Ysgolion Meithrin yn y noson.

Mae gweithgareddau y Clybiau Gwawr yn cynnwys sgyrsiau ar aromatherapi a choluro er enghraifft; gweithgareddau megis sgïo neu sglefrio rhew; ac i'r aelodau diog cwisiau a mynd allan i fwyta! Os oes gennych ddiddordeb ymuno â Chlwb Gwawr, neu ddechrau un yn eich hardal chi, ffoniwch Manon Wyn Rhys, Swyddog Datblygu'r De ar 01222 216503.

# Dysgwyr y Ddinas

dan ofal Gill Stephen

*Shwmae eto!*



### Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda!

Wel, mae **plu eira** wedi dechrau **disgyn** eisoes - efallai bydd y Nadolig yn wyn eleni. Ond **Nadolig Gwyn ai beidio** gobeithio byddwch yn cael **Nadolig Llawen** gyda digon o **hwyl, anrhegion a mins peis**. Os ydych am gael anrhegion mae eisiau cofio ysgrifennu at **Siôn Corn** nawr gyda'ch rhestr! Efallai byddwch yn mynd i weld **'Drama'r Geni'** gyda **Mair a Joseff a'r baban Iesu** yn y stabl, ac efallai yn canu carolau.

Cofiwch yn ystod yr hwyl i gyd fod gwyliau y Nadolig yn hir. Felly ceisiwch fynd i rywle i ymarfer eich Cymraeg **dros yr Ŵyl** ac os bydd rhywun yn dymuno 'Nadolig Llawen' yr ateb yw '**A chithau!**'

**Gill Stephen**
Tiwtor-Drefnydd (Cymraeg i Oedolion)
Consortiwm Caerdydd a'r Fro

Yr ateb i bôs mis Hydref
**Beth sy'n digwydd unwaith mewn wythnos ond dim ond dwywaith mewn blwyddyn'?**
*yw*
**'Y llythyren 'y' wrth gwrs!'**
Derbyniais ddau ateb cywir y tro hwn, gan Clive Litchfield a Stephen Johnson, y ddau o Dreganna ac yn astudio am eu Safon A eleni. Llongyfarchiadau!

## ☆ CYSTADLEUAETH ☆

Y tro hwn ein cystadleuaeth yw gorffennwch y dywediad canlynol: **'Eira ..., eira mawr.'**

Mae **Coleg Glan Hafren** yn cynnig 'Pecyn Dychwelyd i'r Dosbarth' (sef pecyn o angenrheidiau ar gyfer mynd yn ôl at eich dosbarth ar ôl yr haf hir - ffeil, papur, pensiliau, pren mesur, ayb) i'r person cyntaf â'r ateb cywir. Ysgrifennwch ataf nawr ar gerdyn post gyda'ch atebion. Y cyfeiriad yw **Coleg Glan Hafren, 35 Y Parêd, CAERDYDD CF2 3AD**

**GEIRFA:** **plu eira** - snow flakes **disgyn** - to fall **Nadolig Gwyn ai beidio** - White Christmas or not **Nadolig Llawen** - Merry Christmas **hwyl, anrhegion a mins peis** - fun, presents and mince pies **Siôn Corn** - Father Christmas **Drama 'r Geni**- Nativity Play **Mair a Joseff a'r baban Iesu** - Mary, Joseph and the baby Jesus **dros yr Ŵyl** - over the holiday **A chithau!** - and to you!

## DYDDIADUR O DDIGWYDDIADAU - CAERDYDD A'R FRO

| | |
|---|---|
| **28/12/1996** 9.30 - 1.30pm | Ysgol Undydd, Canolfan yr Urdd, Caerdydd Ffoniwch Christine Franks 01222 513046 |
| **11/01/1997** 9.30 - 1.30pm | Ysgol Undydd, Canolfan Palmerston, Y Barri Ffoniwch Christine Franks 01222 513046 |
| **25/01/1997** 9.30 - 1.30pm | Ysgol Undydd, Canolfan yr Urdd, Caerdydd Ffoniwch Christine Franks 01222 513046 |
| **Pob dydd Mercher** 12.00 - 2.00pm | Clwb Coffi, Clwb Ifor Bach, Womanby St., Caerdydd Ffoniwch Christine Franks 01222 513046 |
| **Pob nos Iau** yn ystod tymor yr ysgol 9.15pm | Mae nifer o Gymry Cymraeg a dysgwyr yn cwrdd i sgwrsio'n anffurfiol yn lolfa Gwesty Parc y Rhath (Roath Park Hotel) Ffoniwch Pete 763426 |
| **Pob bore Gwener** 9.30 - 11.30am | Clwb Coffi y Fro, Wesley Court, Dinas Powys Ffoniwch Christine Franks 01222 513046 |
| **Pob dydd Gwener** 1.00pm - 3.00pm | Clwb Coffi Canolfan yr Urdd, Caerdydd Ffoniwch Christine Franks 513046 |
| **Pob dydd Gwener** Amser cinio | Mae nifer o Gymry Cymraeg a dysgwyr yn cwrdd i sgwrsio'n anffurfiol yn lolfa y 'Duke of Wellington' yn Y Bont-faen. |
| **Pob bore Sadwrn** 10.45am | Mae cyfle arall i ymarfer eich Cymraeg dros baned o goffi yn Festri'r Tabernacl, Yr Ais (The Hayes), Caerdydd. Ffoniwch Chris Rees-Woodward 499593 |
| **Pob bore Sadwrn** 11.00am - 2.00pm | Clwb Sadwrn ACEN, y cyfle i ymarfer eich Cymraeg a chwrdd â ffrindiau newydd. Ffoniwch 01222 665455 am fanylion pellach |
| **Yn ôl y galw** | Cymorthfeydd - cyfle i ddysgwyr neu diwtoriaid drafod eu problemau gyda gwaith neu gyrsiau. Ffoniwch Gill Stephen 01222 250439 (Trefnwyd gan Gonsortiwm Caerdydd a'r Fro, Cymraeg i Oedolion) |


**AM FANYLION PELLACH FFONIWCH GILL STEPHEN - 250439**



Soniwyd yn ddiweddar yn *Y Dinesydd* am wasanaeth coffa a chymodi dwyieithog a oedd i'w chynnal gan Fforwm Cymru y Newyn yng nghapel y Tabernacl ar yr Ais er cof am y sawl a ddioddefodd o ganlyniad i'r Newyn Mawr yn Iwerddon yn y ganrif ddiwethaf a chyda golwg ar newyn, rhyfel a thlodi yn y Trydydd Byd heddiw. Dyma'r bobl a welir yn y llun hwn, a dynnwyd wedi'r gwasanaeth:

Parchedig Denzil John; Barry Tobin, Ysgrifennydd y Fforwm; John Sweeney, Cadeirydd y Fforwm; Ted Barrington, Llysgenad Iwerddon; Cynghorydd Derek Rees (yn cynrychioli'r Maer); Joe Moore, Trysorydd y Fforwm; Mrs Claire Barrington; Mrs Clare Rees. *Llun: Robin Griffith*

Y CYNNIG **UNIGRYW UNWAITH ETO**




**GEIRIADUR YR ACADEMI**

**The Welsh Academy English-Welsh Dictionary**

pris arferol **£40**

***ond*** yn Y Llyfrfa Oriel

# £30 yn unig

ar gael trwy'r post-ychwanegwch £3.00 am gludiant
mae siopwyr personol yn derbyn taleb am ostyngiad o 10%

arian gyda'r archeb/dyfynnwch rif eich cerdyn credyd
ffôn 01222 395548. ffacs 01222 384347

Y Llyfrfa The Stationery Office ORIEL

Siop Lyfrau Y Llyfrfa Oriel
Heol Tŷ'r Brodyr, Caerdydd CF1 4AA

---

AMGUEDDFEYDD AC ORIELAU CENEDLAETHOL CYMRU
NATIONAL MUSEUMS & GALLERIES OF WALES

O gelfyddyd Ewropeaidd i bensaernïaeth cynhenid, o blanhigion brodorol a mwnyddiaeth i fywyd y Rhufeiniaid ac o chwedlau gwerin Cymru i Reilffordd y *Great Western* yng Nghymru, mae Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru yn cyhoeddi amrywiaeth helaeth o lyfrau ar gyfer yr arbenigwr ac ar gyfer y darllenwr cyffredin.

Er mwyn archebu copi o'n catalog cyhoeddiadau, sydd ar fin ei gyhoeddi, cysylltwch â:

Swyddog Gwerthiant
Gardens House
Amgueddfa Werin Cymru
Sain Fagan
Caerdydd
CF5 6XB

---

**Nadolig Llawen gyda SAIN**

**Siân James** - "Gweini Tymor" - caneuon traddodiadol
**Timothy Evans**
**Mirain Haf**
**Iwcs a Doyle** - "Edrychiad Cynta"
**Ar Eich Cais** - ffefrynnau'r rhaglen radio
**Dafydd Edwards**





**Côr Meibion Llangwm**
**Cwlwm** - "Heddiw 'Fory"
**Côr Godre'r Aran** - "Evviva!"
**Côr Meibion Llanelli**
**Goreuon Corau Meibion Cymru**
**Tenoriaid Cymru** - 18 o'ch hoff denoriaid
**Dafydd a Lliwen**
**Mary Hopkin** - Y Caneuon Cynnar
**Cajuns Denbo** - "Stompio"
**Sesiynnau "Ram Jam Sadwrn"**
**Bob Delyn a'r Ebillion** - "Gwbade Bach Cochlyd"



o'ch siopau lleol, neu drwy'r post gan

**SAIN Llandwrog Caernarfon Gwynedd LL54 5TG**
**Ffôn (01286) 831.111 Ffacs (01286) 831.497**

---

Llyfr Newydd

## ★ *Llyfrau Nadolig* ★

**Sally Jones: Rhodd Duw i Charles**
Gwen Emyr £4.99

'Un o garwriaethau mawr Cymru' yw geiriau R. Tudur Jones am fywyd Sally a Thomas Charles. Os nad ydych wedi darllen tair cyfrol drwchus D. E. Jenkins am Thomas Charles o'r Bala, yna y llyfr hwn yw eich unig gyfle i ddod i adnabod un o ferched hynotaf Cymru.

**Y Beibl i Blant: mewn 365 o storïau, Mary Batchelor, Addasiad Cymraeg gan Julie Rhys Jones ac Elisabeth James, £9.95**
Cyfrol swmpus yn cynnwys stori o'r Beibl ar gyfer pob dydd o'r flwyddyn. Mae ynddo dros 200 o luniau lliw, cyfeiriad ysgrythurol uwchben pob stori a mynegai llawn i enwau personau. Dros ddwy filiwn o gopïau ohono mewn print mewn ugain o ieithoedd.

**Maplyfr y Beibl, Arfon Jones, £3.50**
'Llyfr na ddylai unrhyw ysgol Sul na dosbarth beiblaidd fod hebddo.'—*Yr Hogwr*

**Beibl i Bawb, Elisabeth Williams, £1.25**
Stori Mary Jones a'i thaith i'r Bala a'i bywyd wedyn ym Mryn-crug, ynghyd â hanes Thomas Charles a dechreuadau Cymdeithas y Beibl.

**Carolau a'u Cefndir, E. Wyn James, £2.95, Clawr caled**
40 o garolau gyda lluniau lliwgar a chyflwyniad i'w cynnwys a'u cefndir.

**Llewyrch i'm Llwybr, Calendr 1997, £1.50 o hyd!**
Calendr lliw-llawn yn arddangos mis ar bob tudalen, gyda llun o olygfa Gymreig a phennill ar gyfer pob mis, ac adnod ar gyfer pob dydd. Ar gael yn Saesneg hefyd, *Light Unto My Path*.

Dau lyfr Newydd yn Saesneg

**Following the Shepherd**
**Peter Jeffery, £2.99**
Golwg ddiddorol, fywiog, newydd sbon ar y drydedd salm ar hugain.

**Encounters with God, Peter Williams, £3.99**
Penodau darllenadwy iawn ar 24 o gymeriadau llai amlwg y Testament Newydd, megis Ffestus, y pagan soffistigedig, a Silas, y gŵr yn y cysgodion.

*Ar gael yn eich siop leol neu gan y cyhoeddwyr (cludiad yn ychwanegol)*

**GWASG EFENGYLAIDD CYMRU**
**Bryntirion, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4DX**
**Ffôn: 01656-655886; Ffacs: 01656-656095**

---

## *Cymdeithas Ddawns Werin Cymru*

*Cyhoeddiadau ar gyfer Cystadlaethau Dawns Eisteddfod Islwyn 1997*
*Cysylltwch â Dawn Webster, Greenacres, Broad Street Common, Nash, Casnewydd. NP6 2AZ. Ffôn: 01633 272 662*

---

## *TELYN GYNGERDD*

*wych a hardd o RWSIA (Leningrad): cyflwr ardderchog.*
*Pris: £5,500 (neu'r pris agosaf).*
*Cysyllter ag Owain Meredith. Tel. 01222 565079 / 225947 (hwyr)*



**S4C yn cyflwyno**

**NOS LUN, 30 RHAGFYR am 8.45 p.m.**

Rhaglen ddogfen ddifyr syn olrhain hanes sut y fflimiwyd **Y Fargen**

# *Y Fargen*

**NOS GALAN, 31 RHAGFYR am 8.30 p.m.**

Y Flwyddyn yw 1780. Mae gŵr Catherine Morgan (Nicola Beddoe) wedi cael ei ladd wrth ymladd yn erbyn Napoleon - ac mae hi'n wynebu tlodi. Rhaid iddi ddewis naill ai priodi'r siryf Huw Williams (Richard Lynch) neu gyrru ei gwartheg i Gaerloyw gyda chymorth brawd ysgeler Huw, Rhys (Aneirin Hughes).

S4C